



75POINT<sup>3</sup>

Financial Advice for Life

# Hysbysiad Preifatrwydd i Gwsmeriaid



## Pam ddylech chi ddarllen y ddogfen hon?

Yn ystod eich cysylltiad â ni, byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth bersonol fanwl yn ymwneud â'ch amgylchiadau presennol, eich sefyllfa ariannol ac, mewn rhai achosion, eich iechyd a hanes iechyd teulu (**Eich Data Personol**). Mae'r ddogfen hon yn bwysig gan ei bod yn caniatáu i ni egluro i chi beth fydd angen i ni ei wneud â'ch Data Personol, a'r amrywiol hawliau sydd gennyh mewn perthynas â'ch Data Personol.

## Beth a olygwn wrth "Eich Data Personol"?

Mae eich Data Personol yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n disgrifio neu'n ymwneud â'ch amgylchiadau personol. Gall eich Data Personol eich adnabod chi'n uniongyrchol, er enghraifft eich enw, cyfeiriad, dyddiad geni, rhif yswiriant gwladol. Gall eich Data Personol hefyd eich adnabod yn anuniongyrchol, er enghraifft, eich sefyllfa gyflogaeth, eich hanes iechyd corfforol a meddyliol, neu unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn gysylltiedig â'ch hunaniaeth ddiwylliannol neu gymdeithasol.

Yng nghyd-destun rhoi cymorth i chi mewn perthynas â'ch gofynion Buddsoddi, Pensiwn, Cyllid Morgais ac Yswiriant gall eich Data Personol gynnwys:

- Teitl, enw, dyddiad geni, rhyw, cenedligrwydd, statws sifil/ priodasol, manylion cyswllt, cyfeiriadau a dogfennau sy'n angenrheidiol i wirio'ch hunaniaeth
- Gwybodaeth am gyflogaeth a chydnabyddiaeth, (gan gynnwys cyflog/cynlluniau bonws/goramser/tâl salwch/buddion eraill), hanes cyflogaeth
- Manylion cyfrif banc, gwybodaeth am dreth, benthyciadau ac ymrwymadau credyd, hanes credyd personol, ffynonellau incwm a gwariant, amgylchiadau teuluol a manylion am ddibynyddion
- Statws a hanes iechyd, manylion triniaeth a phrognosis, adroddiadau meddygol (darperir manylion pellach isod yn benodol mewn perthynas â'r prosesu y gallwn ei wneud mewn perthynas â'r math hwn o wybodaeth)
- Unrhyw gynhyrchion Buddsoddi, Pensiwn, Cyllid Morgais ac Yswiriant sy'n bodoli eisoes a'r telerau ac amodau sy'n ymwneud â'r rhain

## Y Sail dros ddefnyddio eich Data Personol

Pan fyddwn yn siarad â chi am eich gofynion Buddsoddi, Pensiwn, Cyllid Morgais ac Yswiriant rydym yn gwneud hynny ar y sail bod y ddau barti yn ymrwymo i gontract ar gyfer cyflenwi gwasanaethau.

Er mwyn cyflawni'r contract hwnnw, ac i drefnu'r cynhyrchion sydd eu hangen arnoch, mae gennym yr hawl i ddefnyddio Eich Data Personol at y dibenion y manylir arnynt isod.

Fel arall, naill ai yn ystod trafodaethau cychwynnol gyda chi neu pan fydd y contract rhyngom wedi dod i ben am ba bynnag reswm, mae gennym yr hawl i ddefnyddio Eich Data Personol ar yr amod ei bod er ein budd busnes dilys i wneud hynny ac nad yw'n effeithio ar eich hawliau. Er enghraifft, efallai y bydd angen i ni ymateb i geisiadau gan fenthycwyr morgeisi, darparwyr yswiriant a'n Darparwr Gwasanaeth Cydymffurfiaeth sy'n ymwneud â'r cyngor rydym ni wedi'i roi i chi, neu gysylltu â chi i ofyn am adborth ar y gwasanaeth a gawsoch.

Weithiau, byddwn yn defnyddio Eich Data Personol ar gyfer cyfrifoldebau cytundebol a allai fod yn ddyledus i'n rheolydd, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, neu i gydymffurfio'n ehangach ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol neu reoleiddiol y gallem fod yn ddarostyngedig iddi. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddem yn prosesu Eich Data Personol er mwyn cwrdd â rhwymedigaeth gyfreithiol, cydymffurfiaeth neu rwymedigaeth reoleiddio arall yr ydym yn ddarostyngedig iddi.

## Y Sail dros brosesu rhannau penodol o'ch Data Personol

Pan ofynnwch i ni eich cynorthwyo, er enghraifft, gyda'ch Yswiriannau/Buddsoddiadau Moesegol, yn enwedig yswiriant bywyd ac yswiriant a allai eich cynorthwyo pe bai damwain neu salwch, byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth ynghylch eich tarddiad ethnig, eich iechyd a'ch hanes meddygol. (**Eich Data Arbennig**). Byddwn yn cofnodi ac yn defnyddio Eich Data Arbennig er mwyn gwneud ymholiadau i ddarparwyr Yswiriant a/neu Fuddsoddiadau mewn perthynas â chynhyrchion yswiriant a allai ddiwallu eich anghenion ac i roi cyngor i chi ynghylch addasrwydd unrhyw gynnyrch a allai fod ar gael ichi.

Os oes gennych gyfrifoldeb rhiant dros blant o dan 13 oed, mae hefyd yn debygol iawn y byddwn yn cofnodi gwybodaeth ar ein systemau sy'n ymwneud â'r plant hynny ac o bosibl, eu Data Arbennig.

Gall trefniant rhai mathau o yswiriant gynnwys datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag euogfarnau neu droseddau hanesyddol neu gyfredol ("**Datgeliadau Troseddol**"). Mae hyn yn

berthnasol i weithgareddau sy'n ymwneud ag yswiriant megis tanysgrifennu, hawliadau a rheoli twyll.

Byddwn yn defnyddio Data arbennig ac unrhyw Ddatgeliadau Troseddol yn yr un modd â'ch Data Personol yn gyffredinol, fel y nodir yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn.

Rhaid gallu cyfnewid gwybodaeth am Ddata Categori Arbennig a Datgeliadau Troseddol yn rhydd rhwng cyfryngwyr yswiriant fel ein Cwmni, a darparwyr yswiriant, er mwyn galluogi cwsmeriaid i sicrhau'r amddiffyniad yswiriant pwysig y mae eu hanghenion ei angen.

## Sut ydym ni'n casglu eich Data Personol?

Byddwn yn casglu ac yn cofnodi Eich Data Personol o amrywiaeth o ffynonellau, ond byddwn yn ei gasglu yn bennaf yn uniongyrchol gennych chi. Fel arfer, byddwch yn darparu gwybodaeth yn ystod ein cyfarfodydd cychwynnol neu sgysiaid gyda chi i sefydlu'ch amgylchiadau a'ch anghenion a'ch dewisiadau mewn perthynas â Buddsoddi, Pensiwn, Cyllid Morgais ac Yswiriant. Byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan gynnwys e-bost.

Efallai y byddwn hefyd yn cael rhywfaint o wybodaeth gan drydydd partion, er enghraifft, gwiriadau credyd, gwybodaeth gan eich cyflogwr, a chwiliadau am wybodaeth yn y parth cyhoeddus fel y gofrestr etholiadol. Os ydym yn defnyddio datrysiadau technoleg i gynorthwyo i gasglu Eich Data Personol er enghraifft meddalwedd sy'n gallu gwirio'ch statws credyd, byddwn ond yn gwneud hynny os oes gennym gydsyniad gennych chi neu ein prosesydd enwebedig i gael mynediad i'ch gwybodaeth yn y modd hwn. O ran gwiriadau adnabod electronig ni fyddai angen eich caniatâd arnom ond byddwn yn eich hysbysu o sut mae meddalwedd o'r fath yn gweithredu a'r pwrpas y mae'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer.

## Beth sy'n digwydd i'ch Data Personol pan mae'n cael ei ddatgelu i ni?

Wrth drin Eich Data Personol, byddwn yn:

- Cofnodi a storio Eich Data Personol yn ein ffeiliau papur, dyfeisiau symudol ac ar ein systemau cyfrifiadurol, (*e-bost, gyriannau caled, a chyfleusterau cwmwl*). Dim ond gweithwyr ac ymgynghorwyr yn ein cwmni sy'n gallu cyrchu'r wybodaeth hon a dim ond pan fydd angen darparu ein gwasanaeth i chi a chyflawni unrhyw dasgau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth hwnnw.
- Cyflwyno'ch Data Personol i Ddarparwyr Cynnyrch, Benthycwyr Morgeisi, Benthycwyr Masnachol a/neu ddarparwyr Cynnyrch Yswiriant, ar ffurf papur ac ar-lein trwy borth diogel. Mae darparu'r wybodaeth hon i drydydd parti yn hanfodol er mwyn caniatáu i ni

symud unrhyw ymholiad neu gais a wneir ar eich rhan ymlaen ac i ddelio ag unrhyw gwestiynau ychwanegol neu faterion gweinyddol y gall benthycwyr a darparwyr eu codi.

- Defnyddio Eich Data Personol at ddibenion ymateb i unrhyw ymholiadau a allai fod gennych mewn perthynas ag unrhyw Fuddsoddiad, Pensiwn, cynnyrch Cyllid Morgais neu Bolisi Yswiriant y gallwch ei gymryd, neu i'ch hysbysu am unrhyw ddatblygiadau mewn perthynas â'r cynhyrchion a /neu'r polisiau hynny y gallem ddod yn ymwybodol ohonynt.

## Rhannu eich Data Personol

O bryd i'w gilydd bydd Eich Data Personol yn cael ei rannu gyda:

- Darparwyr buddsoddiadau, darparwyr Pensiwn, Benthycwyr Morgeisi, Benthycwyr Arian a/neu Ddarparwyr Yswiriant.
- Trydydd partïon y credwn fydd yn gallu ein cynorthwyo gyda'ch ymholiad neu'ch cais, neu a all gefnogi'ch anghenion fel y nodwyd. Bydd y trydydd partïon hyn yn cynnwys, ond efallai na fyddant yn gyfyngedig i, ein cynghorwyr cydymffurfio, arbenigwyr cynnyrch, gwerthwyr tai, darparwyr gwasanaethau cyfreithiol fel cynllunwyr ystadau, trawsgludwyr, syrfewyr a phriswyr (ym mhob achos lle credwn fod hyn yn ofynnol oherwydd eich amgylchiadau penodol).

Ym mhob achos, dim ond at y dibenion a nodir yn yr Hysbysiad Preifatrwydd i Gwsmeriaid hwn y bydd eich Data Personol yn cael ei rannu, h.y. i symud eich ymholiad Buddsoddi, Pensiwn, Cyllid Morgais ac Yswiriant ymlaen ac i ddarparu ein gwasanaethau proffesiynol i chi.

Sylwch nad yw'r rhannu hwn o'ch Data Personol yn rhoi hawl i drydydd partïon anfon negeseuon marchnata neu hyrwyddo atoch: fe'i rhennir i sicrhau y gallwn gyflawni ein cyfrifoldebau atoch yn ddigonol, ac fel y nodir fel arall yn yr Hysbysiad Preifatrwydd i Gwsmeriaid hwn.

Nid ydym yn rhagweld y bydd perfformiad ein gwasanaeth yn golygu y bydd Eich Data Personol yn cael ei drosglwyddo y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

## Diogelwch a chadw eich Data Personol

Mae eich preifatrwydd yn bwysig i ni a byddwn yn cadw eich Data Personol yn ddiogel yn unol â'n cyfrifoldebau cyfreithiol. Byddwn yn cymryd camau rhesymol i ddiogelu Eich Data Personol rhag cael ei gyrchu'n anghyfreithlon neu'n faleisus gan drydydd parti.

Rydym hefyd yn disgwyl i chi gymryd camau rhesymol i ddiogelu eich preifatrwydd eich hun wrth drosglwyddo gwybodaeth atom, megis peidio ag anfon gwybodaeth gyfrinachol dros e-bost heb ddiogelwch, sicrhau bod atodiadau e-bost yn cael eu gwarchod gan gyfrinair neu eu hamgryptio a dim ond defnyddio dulliau postio diogel pan anfonir dogfennaeth wreiddiol atom ni.

Bydd eich Data Personol yn cael ei gadw gennym ni naill ai'n electronig neu ar ffurf papur am isafswm o 6 blynedd yn dilyn y cyngor/gwasanaeth a gewch gennym ni, er y gallai eich data gael ei gadw am gyfnod hirach lle gallai fod angen hyn i fodloni gofynion ein cyrff rheoleiddio.

## Diweddaru eich Data Personol.

Byddwn yn adolygu eich data gyda chi yn rheolaidd bob blwyddyn o leiaf er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gywir ac yn gyfoes.

## Eich hawliau mewn perthynas â'ch Data Personol:

### Gallwch:

- ofyn am gopiau o'ch Data Personol sydd o dan ein rheolaeth
- ofyn i ni esbonio ymhellach sut rydym yn defnyddio eich Data Personol
- ofyn i ni gywiro, ddileu neu ei gwneud yn ofynnol i ni gyfyngu ar neu roi'r gorau i ddefnyddio Eich Data Personol (rhoddir manylion ynghylch i ba raddau y gallwn wneud hyn ar adeg unrhyw gais o'r fath)
- ofyn i ni anfon copi electronig o'ch Data Personol i sefydliad arall os dymunwch
- newid sylfaen unrhyw gydsyniad y gallech fod wedi'i ddarparu i'n galluogi i farchnata i chi yn y dyfodol (gan gynnwys tynnu unrhyw gydsyniad yn ôl yn ei gyfanrwydd)

## Sut i gysylltu â'n Cwmni mewn cysylltiad â'r defnydd o'ch Data Personol

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am y ddogfen hon, neu os ydych am gysylltu er mwyn arfer unrhyw un o'ch hawliau a nodir ynddo, cysylltwch â:

- Y Swyddog Cydymffurfiaeth, 75point3 Limited, 14 Ffordd Penrhyn, Bae Colwyn, Conwy LL29 8LG.
- 01492 536 333

- markbonsall@75point3.com

Os ydym yn teimlo bod gennym hawl gyfreithiol i beidio â delio â'ch cais, neu i weithredu, mewn ffordd wahanol i'r ffordd rydych chi wedi gofyn amdano, byddwn ni'n eich hysbysu o hynny ar y pryd.

Dylech hefyd gysylltu â ni cyn gynted â phosibl ar ôl ichi ddod yn ymwybodol o unrhyw ddatgeliad anawdurdodedig o'ch Data Personol, fel y gallwn wneud ymchwiliad a chyflawni ein rhwymedigaethau rheoliadol ein hunain.

Os oes gennych unrhyw bryderon neu gwynion ynghylch sut yr ydym wedi trin Eich Data Personol gallwch gyflwyno cwyn i reoleiddiwr diogelu data'r DU, sef Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), y gellir cysylltu â hi trwy'r wefan <https://ico.org.uk/global/contact-us/> neu trwy ysgrifennu i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane , Wilmslow, Sir Gaer, SK9 5AF.

## Ffurflen Ganiatâd i Wrthrych y Data

TRWY HYN rwy'n rhoi caniatâd i **75point3 Cyf.** i brosesu fy nata personol at y diben a nodir yn yr Hysbysiad Preifatrwydd i Gwsmeriaid uchod.

	Cleient	Cynghorydd
Enw		
Llofnod		
Dyddiad		

## Caniatâd Marchnata

TRWY HYN rwy'n rhoi caniatâd i **75point3 Cyf** i brosesu fy nata personol at ddibenion Marchnata. Trwy roi eich caniatâd, rydych yn cytuno eich bod wedi rhoi eich caniatâd penodol i ni gysylltu â chi i farchnata cynhyrchion a gwasanaethau y credwn a allai fod o ddiddordeb i chi a thrwy unrhyw gyfrwng cyfathrebu sy'n addas ar y pryd.

## NODIADAU PWYSIG: Marchnata gan ein Cwmni

Os nad ydych yn nodi eich bod yn rhoi caniatâd i **ni** gysylltu â chi, efallai na allwn ddarparu manylion i chi am gynhyrchion a/neu wasanaethau a allai weddu i'ch anghenion a'ch amgylchiadau.

Hoffem gadw cofnod o'ch caniatâd penodol i **ni** gysylltu â chi trwy'r post, ffôn, negeseuon testun, e-bost a negeseuon gwib ar gyfer marchnata ein cynhyrchion neu wasanaethau y credwn a allai fod o ddiddordeb i chi. Nodwch eich caniatâd i ni gysylltu â chi trwy unrhyw un o'r dulliau a nodir isod (ticiwch bob blwch sy'n berthnasol ✓):

Post	Ffôn	Negeseuon Testun	E-bost	Apiau Negeseuon
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

  

Llofnod
Dyddiad





## Cyngor arbenigol am

- Fuddsoddiadau
- Pensiynau
- Yswiriant Bywyd
- Morgeisi

